



---

**Polisi S4C ar Ddarllediadau Pleidiau Gwleidyddol (PPB), Darllediadau Etholiadol (PEB) a Darllediadau Ymgyrchoedd Refferendwm (RCB)**  
Mai 2017

---

## **1. Cyflwyniad**

- 1.1 Mae gan Awdurdod S4C ddyletswydd o dan Atodlen 12 paragraff 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003 i gynnwys darllediadau pleidiau gwleidyddol a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yn S4C ac unrhyw wasanaeth cyhoeddus dynodedig arall a ddarperir ganddi.
- 1.2 Rhaid i Awdurdod S4C baratoi polisi mewn perthynas â darllediadau o'r fath sy'n nodi'r modd y mae'r Awdurdod yn bwriadu cyflawni'r ddyletswydd hon.
- 1.3 Mae'r ddogfen hon yn nodi polisi Awdurdod S4C a baratowyd yn unol ag Atodlen 12 paragraff 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Wrth ffurfio'r polisi hwn, mae Awdurdod S4C wedi nodi'r penderfyniadau a wnaed yn y Grŵp Cyswllt Darlledwyr (sy'n cynnwys cynrychiolaeth o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y D.U. – BBC, ITV, Channel 4, Five a S4C), y farn a fynegwyd gan y Comisiwn Etholiadol a'r rheolau a wnaed gan Ofcom o dan adran 333 Deddf Cyfathrebiadau 2003.
- 1.4 Gall S4C newid neu ychwanegu at y meini prawf a nodir o fewn y polisi hwn mewn perthynas ag unrhyw etholiad neu refferendwm penodol. Bydd S4C yn cyhoeddi unrhyw feini prawf diwygiedig neu ychwanegol ar ei gwefan ([www.s4c.cymru](http://www.s4c.cymru)).

## **2. Pleidiau Gwleidyddol a Sefydliadau Refferendwm Dynodedig**

Gellir dyrannu Darllediadau Gwleidyddol (PPBs) a Darllediadau Etholiadol (PEBs) i bleidiau gwleidyddol sydd wedi'u cofrestru gan y Comisiwn Etholiadol yn unig. Gellir dyrannu Darllediadau Ymgyrchoedd Refferendwm (RCBs) i sefydliadau a ddynodwyd gan y Comisiwn Etholiadol yn unig.

## **3. Dyrannu Darllediadau**

### *PPBs*

- 3.1 Cynigir un neu fwy o PPBs ar S4C i bleidiau ar draws cyfnod o 12 mis os:
  - oes gan blaid un sedd neu fwy yng Nghymru yn unrhyw senedd neu gynulliad perthnasol (h.y. yn Nhŷ'r Cyffredin, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Senedd Ewrop); ac
  - mae tystiolaeth o'u cefnogaeth etholiadol blaenorol a/neu gefnogaeth gyfredol mewn etholiad penodol neu yng Nghymru yn golygu y byddai'n briodol gwneud hynny.
- 3.2 Yn amodol ar baragraff 3.1 uchod, cynigir un PPB i bleidiau cofrestredig ym mhob un o'r tri chyfnod canlynol: yr hydref, gaeaf a'r gwanwyn. Ni fydd PPBs yn cael eu darlledu yn ystod cyfnod etholiad na chyfnod refferendwm.

*RCBs*

- 3.3 Byddwn yn cynnig cyfres (dau neu fwy o ddarllediadau) cyn pob refferendwm i bob sefydliad refferendwm dynodedig. Bydd y dyraniad hwn yn gyfartal i bob sefydliad refferendwm.

*PEBs*

- 3.4 Cyn Etholiad Cyffredinol, ac yn achos etholiadau eraill lle'n briodol, cynigir un PEB neu fwy i bleidiau cofrestredig yn amodol ar baragraffau 3.5 a 3.6 isod. Bydd hyd y gyfres a gynigir i blaid benodol i'w benodi gan S4C. Wrth bennu'r nifer o PEBs, bydd S4C yn ystyried amgylchiadau etholiad penodol, gan gynnwys lleoliad yr etholiad, a chefnogaeth etholiadol blaenorol a/neu gefnogaeth gyfredol y blaid unigol yng Nghymru (gweler 3.6).
- 3.5 Yn achos etholiadau cyntaf i'r felin, aml-etholaethol megis Etholiad Cyffredinol, bydd pleidiau cofrestredig sydd ag ymgeiswyr yn sefyll yn o leiaf un rhan o chwech o'r seddi sydd ar gael yn yr etholiad yng Nghymru yn gymwys ar gyfer un PEB. Ar gyfer systemau etholiad cynrychiolaeth gyfrannol (fel Etholiadau Senedd Ewrop), gosodir y gofynion cymhwyso lleiaf ar gyfer dyraniad un PEB mewn modd rhesymol a theg ar gyfer pob etholiad ac yn unol â meini prawf sy'n ystyried y system bleidleisio benodol, y nifer o seddi sydd ar gael yn yr etholiad, y nifer o etholaethau/rhanbarthau a'r nifer o ymgeiswyr a enwebwyd gan y blaid.
- 3.6 Bydd S4C yn ystyried dyrannu slotiau PEBs ychwanegol i bleidiau cofrestredig sydd yn bodloni'r meini prawf yn 3.5 os yw'r dystiolaeth o'u cefnogaeth etholiadol blaenorol a/neu gefnogaeth gyfredol mewn etholiad benodol neu yng Nghymru/ardal etholaethol berthnasol yn golygu y byddai'n briodol gwneud hynny.
- 3.7 Ni ddylai pwrpas PEB fod i hyrwyddo unrhyw ganlyniad penodol mewn refferendwm.

**4. Darllediadau Cymraeg**

- 4.1 Darlledir PPBs, PEBs ac RCBs yn yr iaith Gymraeg yn unig ar S4C.
- 4.2 Bydd darllediad yn yr iaith Gymraeg yn golygu darllediad sydd wedi'i gynhyrchu yn y Gymraeg yn bennaf ac sy'n addas i'w ddarlledu yn ystod oriau darlledu brig S4C. Os yw'r darllediad yn cynnwys defnydd helaeth o drosleisio ac/neu isdeitlo, neu os nad yw'n cydymffurfio â chanllawiau iaith S4C (sydd ar gael ar wefan gynhyrchu S4C), mae S4C yn cadw'r hawl i beidio â darlledu ond bydd yn trafod gyda'r blaid o flaen llaw.

**5. Amserlennu Darllediadau**

- 5.1 Caiff PPBs, PEBs ac RCBs eu hamserlennu rhwng 5.30pm ac 11.30pm. Bydd trefn y darllediadau yn unol â disgresiwn S4C.

- 5.2 Gall pleidiau a sefydliadau dynodedig ddewis hyd o 2'40", 3'40" neu 4'40" ar gyfer eu darllediadau.

## **6. Cydymffurfiaeth**

Rhaid i bob PPB, PEB ac RCB gydymffurfio â chanllawiau iaith, cyfleu a chynhyrchu S4C sydd ar gael ar wefan gynhyrchu S4C yn:

<http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/1154/canllawiau/> ac unrhyw ganllawiau perthnasol eraill a nodir gan S4C.

## **7. Cwynion am ddyraniad darllediadau**

- 7.1 Ystyrir cwynion yn erbyn dyraniad S4C o PPBs, PEBs ac RCBs gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig a sefydliadau refferendwm dynodedig yn unig. Bydd modd iddynt gwyno yn unol â Threfn Cwynion S4C sydd i'w gael ar ein gwefan: <http://www.s4c.cymru/cy/cysylltu--ni/page/17088/sut-i-gwyno-i-s4c/>
- 7.2 Bydd Awdurdod S4C yn adolygu'r polisi hwn o dro i dro.